# Criminal Justice Board for Wales / Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

## Headlines: 4th December 2024

# Key headlines from the Criminal Justice Board for Wales meeting: 4th December 2024

The Criminal Justice Board for Wales last meeting was held on 4th December 2024 and discussions focused on the three key areas set out below.

**Acquired Brain Injury**

- The Board received a presentation from Brainkind to showcase the outcomes of their 'Complex Lives' research, commissioned through the Women in Justice Blueprint. The study examined the prevalence, associated effects, experiences and criminal justice response to women with acquired brain injury, producing three overarching recommendations. A set of next steps will be shared with CJBfW to outline how recommendations will be progressed.

**Board Refresh**

- The meeting had a focused discussion on the outcomes of the Board's Refresh exercise which took place during October and November 2024. The Refresh consisted of a range of interviews with Board members and people with lived experience, an online survey and defining how the Board currently uses data and insights to set priorities and identify emerging issues. From analysis of this information, three overarching themes emerged:
    1. Culture and Behaviour
    2. Governance
    3. Data Insights and Outcomes
- Each theme was discussed in depth, and to implement change across the three themes, six Board principles have been developed:
    - Principle 1: Locally Led - LCJB's agree their priorities and workplans first
    - Principle 2: Data and Insights driven, and outcomes focused
    - Principle 3: Identify capacity and capabilities
    - Principle 4: CJBfW prioritisation setting process
    - Principle 5: CJBfW performs a strategic role and influences policy
    - Principle 6: CJBfW Governance Structure enables delivery and avoids duplication
- To implement these principles, a set of actions will be supported and overseen by the Strategic Leads for the Refresh and report to CJBfW in March.

**Board Business**

- Members agreed to continue to fund the two posts that coordinate the CJBfW for another year.
- Discussions are on-going around the contribution to delivery of the Anti-Racism Action Plan
- Under the Board's People who have Offended priority, members agreed to continue the current governance until March 2025 and to consider the need for a reducing reoffending strategy for Wales as part of the LCJB and CJBfW prioritisation setting process.
- The Board signed off the Criminal Justice Board for Wales and Youth Justice Governance and Interface paper and the Local Criminal Justice Board and Youth Justice Governance and Interface paper. The Board and LCJBs will align their Terms of Reference accordingly.
- The Board agreed to stand up an additional meeting in February 2025 to meet the Government's Safer Streets Director and provide Wales insights and views on the missions.
- CPS's disproportionality report was shared with the Board. The Chief Crown Prosecutor for Wales will attend the Independent Oversight Advisory Panel to discuss the report and will present to the HMPPS Leadership Team and wider Board Members so they can reflect on what more they can do to address discrimination and deliver against the commitments in the Anti-Racism Plan.

# Criminal Justice Board for Wales work programme: 2024-2025

## Delivering, Justice, Prevention, Fairness and Efficiency

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

### Victims & Witnesses

Ambitions:

- Compliance with the Victims' Code
- Reduce domestic abuse attrition
- Increase awareness of special
- measures
- Focus on family court

### People who have Offended

Ambitions:

- Bring together a picture of offending across Wales
- LCJBs will implement 12-month action plans to address local offending behaviours
- Address service gaps in Wales: Accommodation, neurodiversity, disabilities and mental health

### Use Evidence; Gather Insights; Oversee Performance

### Early Intervention & Prevention

Ambitions:

- LCJBs to deliver plan commitments
- A policy audit
- Improve data collection and sharing
- Develop an anti-racism training framework
- Increase ethnic minority representation

### Anti-Racism Action

Ambitions:

- LCJBs to deliver plan commitments
- A policy audit
- Improve data collection and sharing
- Develop an anti-racism training framework
- Increase ethnic minority representation

'Tackling Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence' and 'Children and Young People' are two golden threads across all priorities.

# Penawdau allweddol o gyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru: 4th Penawdau Rhagfyr 2024

Cynhaliwyd cyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar y 4ydd o Ragfyr 2024 ac roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar y tri maes allweddol a amlinellir isod.

**Anaf Caffaeledig i'r Ymennydd**

- Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad gan Brainkind yn dangos canlyniadau ei ymchwil 'Complex Lives', a gomisiynwyd trwy'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod. Roedd yr astudiaeth yn archwilio cyffredinrwydd, effeithiau cysylltiedig, profiadau ac ymateb cyfiawnder troseddol i fenywod gydag anaf caffaeledig i'r ymennydd, ac yn gwneud tri argymhelliad trosfwaol. Bydd y camau nesaf yn cael eu rhannu gyda CJBfW i amlinellu sut bydd yr argymhellion yn cael eu datblygu.

**Diweddaru'r Bwrdd**

- Yn ystod y cyfarfod cafwyd trafodaeth bwrpasol am ganlyniadau ymarfer diweddaru'r Bwrdd a ddigwyddodd yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2024. Roedd yr ymarfer Diweddaru'n cynnwys amryw o gyfweliadau gydag aelodau'r Bwrdd a phobl â phrofiadau uniongyrchol, arolwg ar-lein, a diffiniad o sut mae'r Bwrdd yn defnyddio data a mewnwelediadau ar hyn o bryd i bennu blaenoriaethau ac adnabod materion sy'n dod i'r amlwg. Wrth ddadansoddi'r wybodaeth hon, daeth tair thema trosfwaol i'r amlwg:
    1. Diwylliant ac Ymddygiad
    2. Llywodraethu
    3. Cipolygon a Chanlyniadau Data
- Trafodwyd pob thema yn fanwl, ac er mwyn rhoi newid ar waith ar draws y tair thema, mae chwe egwyddor Bwrdd wedi cael eu datblygu:
    - Egwyddor 1: Arwain yn lleol - Mae byrddau cyfiawnder troseddol lleol yn cytuno ar eu blaenoriaethau a chynlluniau gwaith yn gyntaf
    - Egwyddor 2: Mae gwaith yn cael ei sbarduno gan ddata a mewnwelediadau, ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau
    - Egwyddor 3: Adnabod cymwysterau a galluoedd
    - Egwyddor 4: Proses pennu blaenoriaethau CJBfW
    - Egwyddor 5: Mae CJBfW yn perfformio rôl statudol ac yn dylanwadu ar bolisi
    - Egwyddor 6: Mae Strwythur Llywodraethu CJBfW yn hwyluso darpariaeth ac yn osgoi dyblygu
- I roi'r egwyddorion yma ar waith, mae camau gweithredu wedi cael eu drafftio a fydd yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio gan yr arweinwyr strategol ar gyfer Diweddaru'r Bwrdd a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i CJBfW ym mis Mawrth.

**Busnes y Bwrdd**

- Cytunodd aelodau i barhau i ariannu'r ddwy swydd sy'n cyd-gysylltu CJBfW am flwyddyn arall.
- Mae trafodaethau’n parhau am y cyfraniad i'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth
- O dan flaenoriaeth y Bwrdd - Pobl sydd wedi Troseddu - cytunodd aelodau i barhau'r llywodraethu presennol tan fis Mawrth 2025 ac ystyried yr angen am Strategaeth Lleihau Ail Droseddu i Gymru yn rhan o broses pennu blaenoriaethau byrddau cyfiawnder troseddol lleol a CJBfW.
- Cymeradwyodd y Bwrdd y papur Llywodraethu a Rhyng-gysylltu Cyfiawnder Ieuenctid Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, yn ogystal â'r papur Llywodraethu a Rhyng-gysylltu Cyfiawnder Ieuenctid Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Bydd y Bwrdd a byrddau cyfiawnder troseddol lleol yn unioni eu Cylch Gwaith yn unol â hynny.
- Cytunodd y Bwrdd i gynnal cyfarfod ychwanegol ym mis Chwefror 2025 i gwrdd â Chyfarwyddwr Strydoedd Saffach y Llywodraeth a chynnig mewnwelediadau a barn o Gymru ar yr ymgyrchoedd.
- Rhannwyd adroddiad anghymesuredd Gwasanaeth Erlyn y Goron gyda'r Bwrdd. Bydd Prif Erlynydd y Goron Cymru yn bresennol yn y Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol i drafod yr adroddiad, a bydd yn cyflwyno i Dîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ac aelodau ehangach y Bwrdd, er mwyn iddynt fyfyrio ar beth mwy y gallant ei wneud i roi sylw i wahaniaethu a chyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau yn y Cynllun Gwrth-hiliaeth.

# Rhaglen waith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru 2024-2025

## Cyflawni, Cyfiawnder, Atal, Tegwch ac Effeithlonrwydd

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
**Criminal Justice in Wales**

### Dioddefwyr a Thystion

**Uchelgeisiau**

- Cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr
- Lleihau athreuliad cam-drin domestig
- Codi ymwybyddiaeth o fesurau arbennig Canolbwyntio ar lys teulu

### Pobl Sydd Wedi Cyflawni Troseddau

**Uchelgeisiau**

- Llunio darlun o droseddu ledled Cymru
- Bydd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs) yn rhoi cynlluniau gweithredu 12 mis ar waith er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiadau troseddol lleol
- Mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau yng Nghymru: Llety, niwroamrywiaeth, anableddau ac iechyd meddwl

### Use Evidence; Gather Insights; Oversee Performance

### Ymyrryd yn Gynnar ac Atal

**Uchelgeisiau**

- Mae sefydliadau cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o egwyddorion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), ac am arferion wedi'u llywio gan drawma
- Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs) - meddu ar y gwasanaethau cywir er mwyn ymyrryd yn gynnar ac atal troseddau a niwed
- Deall yr amlygrwydd i Anaf i'r Ymennydd i fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

### Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

**Uchelgeisiau**

- Mae sefydliadau cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o egwyddorion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), ac am arferion wedi'u llywio gan drawma
- Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs) - meddu ar y gwasanaethau cywir er mwyn ymyrryd yn gynnar ac atal troseddau a niwed
- Deall yr amlygrwydd i Anaf i'r Ymennydd i fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

'Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' a 'Plant a Phobl Ifanc' yw'r ddau brif linyn drwy'r holl flaenoriaethau.

Cyfiawnder Troseddol
yng Nghymru

**Criminal Justice
in Wales**